# Gweithio gyda'n gilydd

## Gwella Mynediad at Sgrinio ar gyfer Cymunedau Ethnig Leiafrifol yng Nghymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



icc.gig.cymru/sgrinio

Sganiwch yma

# Cyflwyniad



Mae'r canllaw hwn yn nodi sut y gallwch gefnogi cymunedau ethnig leiafrifol i gael gwybodaeth am sgrinio GIG Cymru a chymryd rhan ynddo.

Gallwn ni i gyd chwarae rhan. Mae hyn yn cynnwys staff sgrinio, gweithwyr cymunedol a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Gallwch ddefnyddio'r canllaw hwn i ddarganfod pa gamau y gallwch eu cymryd i gefnogi eich cymuned. Mae'r rhain yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl o bob rhan o Gymru wedi'i ddweud wrthym.

## Awgrym Defnyddiol

Gall sgrinio fod yn bwnc sensitif i lawer o ddiwylliannau ac efallai na chaiff ei drafod yn agored. Ymdriniwch â'r sgyrsiau yn sensitif ac mewn amgylchedd lle mae aelodau'r gymuned yn teimlo'n gyfforddus.

**"Fe wnaethon ni chwarae rhan weithredol yn trefnu grŵp ffocws i ddefnyddwyr ein gwasanaeth roi eu barn a'u hadborth am sgrinio. Roedd hyn er mwyn helpu Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella mynediad cymunedau ethnig leiafrifol at sgrinio."**

Race Equality First

# Gwybodaeth am Sgrinio

## Pethau y gallwch chi eu gwneud:

**Mynd i hyfforddiant ymwybyddiaeth sgrinio** i gynyddu gwybodaeth sgrinio y gellir ei rhannu yn y gymuned.

I archebu lle ar yr hyfforddiant, ewch i'r dudalen cymuned, hyfforddiant ac addysg.

**Dechrau sgyrsiau am sgrinio** gydag aelodau'r gymuned. Efallai y byddwch am wneud hyn fel sgwrs un-i-un neu fel rhan o grŵp. Gall hyn helpu i godi ymwybyddiaeth a chwalu rhwystrau.

**Nodi gweithwyr cymorth a gwirfoddolwyr i weithredu fel hyrwyddwyr** a'u cyfeirio at yr hyfforddiant ymwybyddiaeth sgrinio. Gall aelodau dibynadwy o'r gymuned chwarae rhan bwysig wrth godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o sgrinio yn y gymuned.

**Darganfod y data sgrinio yn eich ardal.** Gall hyn helpu i nodi ardaloedd lle mae niferoedd isel yn cael eu sgrinio.

Mae data sgrinio ar gael ar dudalennau Adroddiadau Rhaglenni ar bob un o wefannau'r rhaglenni sgrinio.

> **"Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi mynd i'r hyfforddiant ymwybyddiaeth sgrinio. Mae wedi rhoi'r wybodaeth i ni allu siarad â'r gymuned mewn ffordd sy'n cael ei derbyn yn ddiwylliannol ac yn eu hiaith eu hunain."**
>
> Race Equality First



**Fy mhrofiad fel menyw ethnig leiafrifol:**

> **“Roeddwn yn nerfus iawn am y prawf sgrinio gan nad oeddwn yn edrych ymlaen at fod yn noeth o flaen y nyrs. Fodd bynnag, roedd y profiad yn gyflym ac roedd y nyrs yn fenyw Ddu fel fi, gwnaeth hyn i mi deimlo’n well. Gwnaeth y nyrs dawelu fy meddwl gan ei bod yn gallu gweld fy mod yn nerfus.**
>
> **Roedd yr ystafell sgrinio hefyd yn fach ac yn breifat iawn ac nid oedd unrhyw un arall o gwmpas ar wahân i’r nyrs. Roedd y derbynnydd hefyd yn gyfeillgar iawn. Felly roedd cael staff cyfeillgar yn gwneud y profiad yn llawer gwell.**
>
> **Rwy’n meddwl hefyd pe bawn wedi gweld lluniau o’r ystafell cyn y prawf sgrinio byddwn wedi gwybod beth i’w ddisgwyl gan ei fod yn breifat iawn.”**

Aelod o’r gymuned

# Gwybodaeth a Chymorth

## Pethau y gallwch chi eu gwneud:

**Cefnogi aelodau'r gymuned i ddarllen a deall eu llythyrau sgrinio**. Efallai y bydd angen help ar bobl i wybod ble i fynd a sut i gyrraedd eu hapwyntiad.

**Cefnogi aelodau'r gymuned i ddeall pam mae sgrinio'n cael ei gynnig** gan ddefnyddio adnoddau fel taflenni Hawdd eu Deall a fideos sgrinio.

Gellir dod o hyd i Adnoddau Hygyrch ar wefan pob rhaglen sgrinio.

**Adnabod anghenion cyfathrebu pobl**. Rhowch wybod i bobl y gallant ofyn am wybodaeth sgrinio mewn gwahanol ieithoedd, neu ar ffurf Hawdd ei Ddeall trwy gysylltu â'r gwasanaeth sgrinio pan gânt eu gwahodd.

**Cefnogi pobl i drefnu cyfieithydd ar y pryd ar gyfer eu hapwyntiad** trwy gysylltu â'r gwasanaeth sgrinio cyn eu hapwyntiad.

Nid yw gwasanaethau sgrinio yn disgwyl i aelodau'r teulu gael eu defnyddio fel cyfieithwyr ar y pryd.



**"Roeddwn i'n gallu sgwrsio â'r gymuned am y gwahanol raglenni sgrinio oedd ar gael gan ddefnyddio'r adnodd cerdyn Z. Roeddent yn hawdd iawn i'w defnyddio ac o faint da i bobl gymryd nhw."**

Gweithiwr Proffesiynol Iechyd y Cyhoedd

### Awgrym Defnyddiol

Gall sgrinio fod yn gymhleth i'w ddeall. Defnyddiwch iaith syml a cheisiwch osgoi termau meddygol a jargon. Mae adnoddau Hawdd eu Deall yn cynnwys lluniau a gallant helpu i egluro a pharatoi pobl ar gyfer prawf sgrinio.



# Gwybodaeth a Chymorth

## Pethau y gallwch chi eu gwneud:

**Cefnogi pobl i ddefnyddio offer cyfieithu ar wefannau ac apiau**. Gallant ddarllen gwybodaeth yn uchel a darparu cyfieithiad ysgrifenedig mewn ystod o ieithoedd.

**Rhoi gwybod i bobl y gallant gysylltu â'r rhaglen sgrinio** i ofyn am apwyntiad hirach a mynd â rhywun gyda nhw i gael cymorth.

Ceir manylion cyswllt ar wefan pob rhaglen sgrinio neu ar lythyrau sgrinio.

**Rhoi gwybod i bobl:**

- Bod yr holl staff sy'n cymryd y prawf pelydr-X o'r fron yn fenywod.
- Gallant ofyn am nyrs neu feddyg benywaidd wrth archebu eu prawf sgrinio serfigol (ceg y groth).

**“Cafodd cleient apwyntiad sgrinio serfigol ond roedd arni ofn gan ei bod wedi cael ei cham-drin yn rhywiol ac yn poeni am y stigma. Siaradodd ei gweithiwr cymorth â'i meddyg teulu i egluro'r sefyllfa a threfnodd fynd gyda hi i'r apwyntiad. Cymerodd y nyrs a gynhaliodd y prawf yr amser i egluro beth oedd yn mynd i ddigwydd a pham ei fod yn bwysig. Fe wnaeth hyn ei helpu i deimlo'n fwy cyfforddus a theimlo ei bod hi'n gallu cael prawf sgrinio serfigol.”**

Gweithiwr Iechyd Cymunedol

# Ymgysylltu a Chydweithio Cymunedol

## Pethau y gallwch chi eu gwneud:

**Lawrlwytho, rhannu ac arddangos gwybodaeth sgrinio ar gyfryngau cymdeithasol ac apiau negeseua** fel WhatsApp.

Gellir lawrlwytho adnoddau o'r tudalennau Adnoddau Hyrwyddo ar y gwefannau sgrinio.

**Annog aelodau'r gymuned i roi adborth** am eu profiad o sgrinio. Gall hyn helpu i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau. Gellir rhoi adborth trwy gysylltu â'r gwasanaeth neu ymweld â'r tudalennau Adborth ar y gwefannau sgrinio.

**Cefnogi aelodau'r gymuned i siarad am sgrinio**. Gall hyn helpu i chwalu rhwystrau a chwalu mythau sgrinio.

**Cysylltwch â'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio** drwy e-bost os hoffech chi rannu'r gwaith rydych chi'n ei wneud neu os oes gennych chi syniadau am sut gallwn ni gydweithio.

> **"Gan weithio gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r gymuned Fwslimaidd, fe wnaethom gynnal digwyddiadau o fewn Mosgiau a lleoliadau cymunedol."**
>
> Gweithiwr Proffesiynol Iechyd y Cyhoedd

### Awgrym Defnyddiol

Gallai fod yn ddefnyddiol i rai pobl siarad â gweithiwr proffesiynol iechyd am sgrinio cyn cymryd rhan. Gall hyn helpu i baratoi pobl ar gyfer eu hapwyntiad a gwybod beth i'w ddisgwyl.

# Dolenni ac Adnoddau

## Hyfforddiant Cymunedol

Hyfforddiant ymwybyddiaeth sgrinio

## Adnoddau Hyrwyddo

Adnoddau hyrwyddo sgrinio

## Adnoddau Hygyrch

- Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol
- Sgrinio Coluddion
- Sgrinio'r Fron
- Sgrinio Serfigol
- Sgrinio Llygaid diabetig
- Sgrinio Cyn Geni
- Sgrinio Clyw Babanod
- Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig

> **"Roeddem yn gallu siarad â phobl am sgrinio, rhoi gwybodaeth gywir iddynt a 'chwalu'r mythau'. Fe ddefnyddion ni'r cyfarwyddiadau sgrinio'r coluddyn a'r pecyn prawf sampl i ddangos pa mor syml yw cwblhau'r prawf."**
>
> Gweithiwr Proffesiynol Iechyd y Cyhoedd

## Am Ragor o Wybodaeth

Ewch i:
icc.gig.cymru/sgrinio

## Sut i Gysylltu â ni

E-bost:
ymgysylltu.sgrinio@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales